**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **dydd Mawrth, 21 Ebrill 2026**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, W. Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC ac un aelod o'r cyhoedd.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gareth Thomas a'r Cynghorydd Sir Ken Taylor.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:
   Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen eitem 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Derbyniwyd cofnodion 17 Mawrth 2026 fel rhai cywir yn dilyn diwygiad i eitem 5.2. (cyn. Cyng. C. Furlong, eilio Cyng. S. Parry).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Derbyniwyd yr adroddiad chwarterol ar yr offer, byddai'r clerc yn trefnu i fân waith gael ei wneud. Cytunwyd derbyn y dyfynbris gan Mr Shaun Wharton ar gyfer yr atgyweiriadau i'r strwythur pren.

4.2 Neuadd y Pentref:-. Roedd y clerc wedi cwrdd â'r peiriannydd o Môn Fire Ltd. wrth iddo gynnal y gwiriad 6 misol o'r system larwm tân. Roedd y larwm wedi cael ei sbarduno sawl gwaith yn ystod yr wythnosau diwethaf a bu rhaid i Cyng. Celfyn Furlong a'r Cyng. Gwilym Jones fynychu i ailosod y system. Esboniodd y peiriannydd fod y system yn hynod sensitif ac yn fwy na thebyg wedi cael ei sbarduno gan y pryfed a ddarganfuwyd yn setlo o amgylch y synwyryddion.
Dymunodd y Cyngor ddiolch i bawb sy'n cymryd yr amser i roi gwybod am ddiffygion a/neu ddifrod wrth iddynt eu gweld, gwerthfawrogir eu gwyliadwriaeth a'u cefnogaeth yn fawr.

Byddai'r clerc yn cysylltu â pherchennog Tŷ Capel ynglŷn â datgysylltu'r cyflenwad dŵr o'i eiddo ac yn trefnu i fân waith cynnal a chadw cael ei wneud ar y cloeon ac ati.
Cytunwyd hefyd i ystyried sefydlu is-bwyllgor i ddelio â materion o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â'r neuadd, gallai Aelodau fynegi eu diddordeb yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion :
i. Roedd y bin yn dal ar goll gyferbyn â chyffordd Bryn Trewan ar Heol Minffordd.
ii. Llochesi fws – roedd y clerc wedi cysylltu â chontractwr lleol a fyddai'n rhoi pris am wneud y gwaith.

5. **Cynllunio**

5.1 VAR 2026/14
Adran 73 cais i amrywio amod (01) y cais VAR/2023/41 (Gwelliannau i'r briffordd

bresennol (yr A5025) rhwng yr A5 Cyffordd i'r Dwyrain o'r Fali i Gyffordd Ffordd Fynediad arfaethedig yr Orsaf Bŵer mewn wyth lleoliad ar wahân ynghyd ag ailadeiladu a lledu'n lleol y palmant presennol a'r addurno arwyneb, cyfansoddyn adeiladu dros dro gan gynnwys cyfleuster ailgylchu palmant dros dro, creu 2 bwll gwanhau a mynediad cynnal a chadw, creu/dargyfeirio llwybrau beicio dros dro, creu cyfleusterau parcio amgen i liniaru colli cilfan ynghyd â gwaith cysylltiedig arall gan gynnwys draenio, trin ffiniau, plannu, arwyddion newydd a marciau ffordd) er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu'r datblygiad tair blynedd arall ar hyd yr A5025 rhwng y Gyffordd ar yr A5 i'r Dwyrain o'r Fali i'r Orsaf Bwer yng Nghemaes / A5025 rhwng yr A5 i'r Dwyrain o Gyffordd y Fali i'r Orsaf Bŵer Cemaes - dim gwrthwynebiadau.

5.2 HHP/2026/53 Treflesg, Llanfair Yn Neubwll
Cais llawn am newidiadau ac estyniadau ynghyd â gwaith cysylltiedig – dim gwrthwynebiadau.

5.3 FPL/2026/ 62 Cae Ellen, Llanfair yn Neubwll
Cais ôl-weithredol i gadw storfa amaethyddol a stabl – dim gwrthwynebiadau

5.4 FPL2025 /268 Fron Wen, Ffordd Minffordd / Minffordd Road, Caergeiliog
Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd y tir ar gyfer storio carafanau teithiol yn fasnachol - dim arsylwadau.

5.5 Penderfyniad / Decision VAR 2025/11 Tir ym Mharc Zealand, Caergeiliog - Wedi'i ganiatáu.

**6. Materion Ariannol**

Cyflwynodd yr RFO yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.3. 2026 i 31.3.2026 ynghyd â chysoni banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Roedd cyfrifon terfynol 2025.26 wedi'u cydbwyso a chadarnhawyd yr arian fel a ganlyn:

Cyfrif Adnau: £4163.93, Cyfrif cyfredol: £25,231.93

6.2 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clerc | 364.19 | Môn FM | 100 |
| Scottish Power | 86.21 | Ambiwlans Awyr Cymru S137 | 100 |
| Môn Fire | 199.2 | Eisteddfod yr Urdd | 500 |
| J A Foulkes | 150 | HMRC | 353.03 |
| Y Rhwyd S142 | 250 | IOACC | 137 |
| Hosbis Dewi Sant S137 | 100 | Un Llais Cymru | 326 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc /SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 YML/FW: Ysgol Uwchradd Caergybi - Ysgol Uwchradd Caergybi: llythyr penderfyniad
7.2 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 22.4.2026

7.3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

7.4 Balchder yn eich Cymuned - Dyraniad Cyfalaf ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
Cytunwyd i dderbyn y cynnig o £13,208.88, byddai'r clerc yn gofyn am brisiau i wneud gwaith pellach ar y neuadd.

7.5 Cronfa Maes Chwarae Ynys Môn

7.6 Lansio Addewid Sifiledd a Pharch Un Llais Cymru

**8. Hyfforddiant –** atgoffwyd aelodau am y lleoedd am ddim sydd ar gael gan Un Llais Cymru.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Celfyn Furlong
Dywedodd fod diwrnod agored ar 9 Mai i ddarparu gwybodaeth am is-orsaf newydd yr oedd y Grid Cenedlaethol yn bwriadu ei hadeiladu ar ein hen safle is-orsaf ym Mhenrhos. Efallai y bydd posibilrwydd o fuddion cymunedol yno.

9.2 Cyng. William Victor Owen:
Roedd trigolion yn pryderu am nifer y cerbydau masnachol oedd wedi'u parcio o gwmpas Lôn Minffordd. Ymddengys bod nifer o fusnesau yn cael eu gweithredu o un ty preifat. Byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau pellach gyda CSYM.

9.3 Cyng. Sharon Parry
Gofynnodd a fyddai'n bosibl gweld yr eiddo ar yr ystâd hosing newydd ar Lôn Minffordd

**10. Cyfarfod Nesaf - 19 Mai 2026**

: